# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Spring Lilly Care**

**Uned 2, Prospect Park**
**Queensway**
**Abertawe**
**SA5 4ED**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Spring Lilly Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Spring Lilly Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol a oedd yn archwilio trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dilyn achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar drefniadau goruchwylio'r gwasanaeth a llesiant y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth a'r staff gofal.

Gwelsom fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol, ac mae mwy o wybodaeth bellach yn cael ei huwchlwytho ar system feddalwedd y darparwr, gyda rhybuddion ar waith i atgoffa'r staff pan fydd angen cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae amlder sesiynau goruchwylio'r staff hefyd yn gwella, ond mae angen ei wella ymhellach. Mae angen rhoi arfarniadau blynyddol ar waith hefyd. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, roedd y staff gofal yn gweithio diwrnodau hir dros gyfnodau hir o amser ac nid oeddent yn cael digon o amser i ffwrdd. Mae hyn wedi gwella gan fod y rhan fwyaf o'r staff bellach yn cael dau ddiwrnod i ffwrdd bob wythnos. Ar adeg yr arolygiad hwn, nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi ymgysylltu â'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth er mwyn casglu adborth ganddynt ers y cyfnod cyn yr arolygiad diwethaf. Mae angen gwneud gwelliannau parhaus er mwyn cydymffurfio â'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth a fydd yn parhau'n weithredol.

Mae morâl y staff yn isel o hyd ar hyn o bryd gan fod diswyddiadau wedi cael eu cyhoeddi, gan gynnwys swydd y rheolwr a benodwyd yn ddiweddar. Dywedodd y staff gofal wrthym y bu rhywfaint o oedi wrth eu talu weithiau, gan fod y gwasanaeth yn aros i daliadau ar gyfer anfonebau glirio. Er nad yw hyn yn effeithio ar y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth ar hyn o bryd, mae risg y bydd yn effeithio arnynt yn y dyfodol.

## Llesiant

Ni chaiff lleisiau'r bobl bob amser eu clywed, ac mae angen gwneud gwelliannau o hyd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'r Datganiad o Ddiben. Er bod camau gweithredu cadarnhaol wedi'u cymryd i wella'r ddogfennaeth cynllunio gofal, er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion y bobl, mae angen gwneud gwelliannau o hyd i sicrhau y gwrandewir ar y bobl a'u bod yn gallu dylanwadu ar newidiadau a/neu welliannau i'r gwasanaeth.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae’r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sydd am wneud eu gorau drostynt. Ar y cyfan, mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac yn cael digon o hyfforddiant. Fodd bynnag, mae morâl y staff yn isel ar hyn o bryd gan fod diswyddiadau yn yr arfaeth a'u bod yn ofni y bydd y gwasanaeth yn gwneud diswyddiadau pellach.

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu hybu. Mae'r bobl yn cael cymorth da gan y gwasanaeth mewn perthynas â meddyginiaethau a chadarnhawyd hyn gan archwiliadau diweddar a gynhaliwyd gan dîm rheoli meddyginiaethau'r rhanbarth.

Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y gwasanaeth yn sefydlog yn ariannol. Mae yna bryderon ynghylch
sefyllfa ariannol y gwasanaeth a allai fod yn cyfrannu at y materion cydymffurfio cyffredinol. Mae sawl aelod o'r staff yn wynebu diswyddiadau ar hyn o bryd ac roedd adborth gan y staff yn cynnwys pryderon am y diwrnodau y cânt eu talu.

Nid yw'r bobl yn gallu derbyn y gwasanaeth yn Gymraeg os byddant am wneud hynny. Mae bron pob un o'r gweithwyr gofal yn y gwasanaeth yn dod o dramor ac nid ydynt yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes galw i ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl gynlluniau personol cyfredol ar waith i'r staff gofal eu dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gofal i ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom sampl o ffeiliau gofal a gwelsom wybodaeth fanylach am ofal a chymorth y bobl o gymharu â'r arolygiad blaenorol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r staff gofal bellach yn rhoi dealltwriaeth well iddynt o'r unigolyn a'r hyn sy'n bwysig iddo. Ers yr arolygiad diwethaf, mae rheolwr y gwasanaeth wedi rhoi blaenoriaethu i hyn, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael i'r staff. Mae angen gwneud gwelliannau o hyd i'r asesiadau risg er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu risgiau unigol y bobl ac yn dilyn yr ymweliad arolygu, derbyniwyd rhai asesiadau risg a oedd wedi cael eu diweddaru i ddangos bod y broses hon wedi dechrau.

Mae gan y gwasanaeth systemau da ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwelsom ganlyniad archwiliad rheoli meddyginiaethau diweddar a gynhaliwyd gan dîm meddyginiaethau'r Awdurdod Lleol a oedd yn nodi bod y gweithdrefnau yn y gwasanaeth yn dda iawn ar y cyfan. Roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys gwiriadau o siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae angen gwneud gwelliannau o hyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'r datganiad o ddiben. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd archwiliadau yn cael eu cynnal er mwyn helpu i oruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr newydd wedi sicrhau bod rhai archwiliadau bellach yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, ni chaiff y camau gweithredu gofynnol a nodir yn dilyn yr archwiliadau hyn bob amser eu cwblhau. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth i gael adborth ganddynt er mwyn ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod hyn yn wir o hyd gan nad oedd unrhyw ymweliadau wedi cael eu cynnal ers yr arolygiad blaenorol. Nid oedd sesiynau goruchwylio staff yn cael eu cwblhau bob chwarter yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae hyn wedi gwella rhywfaint, ond gwelwyd rhai bylchau o hyd. Felly, rydym wedi ailgyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae yna bryderon ynghylch sefyllfa ariannol y gwasanaeth. Yn ystod yr arolygiad hwn, cawsom wybod bod diswyddiadau yn yr arfaeth. Esboniodd yr Unigolyn Cyfrifol gan fod yr Awdurdodau Lleol wedi atal pecynnau gofal ychwanegol yn y tymor hwy, fod gan y gwasanaeth lefelau staffio gormodol a bod angen gwneud diswyddiadau er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol y gwasanaeth yn y dyfodol. Cadarnhaodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn poeni am y diswyddiadau ac am ansefydlogrwydd eu swyddi yn y dyfodol. Er bod y gwasanaeth yn dal i allu cefnogi'r bobl yn effeithiol ar hyn o bryd, ac nad yw'r sefyllfa yn cael llawer o effaith ar eu llesiant, mae yna bryderon yn hyn o beth wrth edrych i'r dyfodol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Gwnaed rhai gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf ac mae sesiynau goruchwylio a hapwiriadau bellach yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu cynnal mor rheolaidd ag y nodir yn y Datganid o Ddiben o hyd. Nid oes Arfarniadau Staff yn cael eu cynnal o hyd. Gwelwyd rhai gwelliannau i drefniadau goruchwylio'r gwasanaeth gyda rhai archwiliadau bellach ar waith. Mae angen datblygu hyn ymhellach er mwyn sicrhau y caiff materion a nodir eu datrys o fewn terfynau amser priodol. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymgysylltu â'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth er mwyn deall a | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | dadansoddi sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen. Gwnaed rhai gwelliannau i batrymau gweithio'r staff er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng eu bywyd a'u gwaith. Fodd bynnag, mae morâl y staff yn isel, ac mae llawer ohonynt yn wynebu risg o gael eu diswyddo o ganlyniad i bryderon ariannol mewn perthynas â'r gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu i sicrhau y caiff mwy o welliannau eu gwneud i drefniadau goruchwylio'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r bobl yn unol â'r esboniad yn y Datganiad o Ddiben. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 11 | Mae yna bryderon ar hyn o bryd ynghylch sefyllfa ariannol y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn destun mesurau rheoli perfformiad gyda'r ddau awdurdod lleol, a gan nad ydynt yn cymeradwyo lleoliadau ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth wedi cael unrhyw waith ychwanegol ers misoedd gan arwain at ostyngiad naturiol yn ei lwyth gwaith. Roedd gan y gwasanaeth ormod o staff yn barod ac mae bellach wrthi'n diswyddo llawer ohonynt. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/07/2024